“Ond eto, pan ddaw Mab y Dyn, a gaiff ef ffydd ar y ddaear?”
(Luc 18:8)

Dyma eiriau gan Iesu sydd yn ein hannog ac yn ein herio i weddïo’n ddisgwylgar ar Dduw, a dyna ergyd y ddameg sy’n dod cyn y frawddeg hon.

Pwrpas y ddameg

Ar ddiwedd y bennod flaenorol roedd Iesu’n sôn am ei ailddyfodiad, sef **“**datguddiad Mab y Dyn**”.** Roedd yn sôn am y perygl o beidio â bod yn barod am y digwyddiad mawr hwnnw. Nawr, mae’n mynd ymlaen i ddweud wrth ei ddisgyblion, yn yr ystyr ehangach, am beidio â blino na digalonni trwy’r oesoedd wrth ddisgwyl ei ymddangosiad, ond i ddyfalbarhau mewn gweddi.

Mae’n amlwg bod Crist yn disgwyl i ni weddïo’n daer arno, fel ein Barnwr cyfiawn ni. Yr ydym yn disgwyl iddo ymddangos er mwyn disodli ei elynion a sefydlu’n weladwy ei deyrnas fendigedig. Rŷn ni’n disgwyl cael teyrnasu gydag ef, ac i’w elynion gael gweld nad oeddem yn anghywir nac yn ffôl i ddisgwyl wrtho.

Barnwr anghyfiawn

Unwaith eto, mae Iesu’n llwyddo i gyfleu gwirionedd pwysig trwy ddarlun hawdd ei ddeall. Byddai’n hawdd i’r gwrandawyr ddychmygu’r barnwr anghyfiawn. Roedd y proffwyd Micha’n sôn am bobl fel hwn: **“y swyddog yn codi tâl a’r barnwr yn derbyn gwobr”** (Mich. 7:3). Doedd y ffaith fod ganddo’r modd i weithredu cyfiawnder yn achos y tlodion neu’r gweddwon ddim yn ddigon i hwn. Roedd raid rhoi llwgrwobr er mwyn cael ei wasanaeth, gan fod mwy o drachwant nag o drugaredd yn ei galon.

Roedd yn anfodlon i gymryd achos y weddw am nad oedd ganddi fodd i’w wobrwyo nac yn berson o ddylanwad yn y ddinas. Serch hynny, roedd yn gwybod bod ei hachos yn gyfiawn, gan ei fod yn ildio i’w chais yn y pendraw.

Gweddw anghenus

Mae gan y Beibl lawer i’w ddweud am gymorth i’r gweddwon. Mae Duw ei hun yn cael ei ddisgrifio fel **“Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon”** (Salm 68.5 BWM). Dywed Iago: **“Dyma’r grefydd sy’n bur a dilychwin yng ngolwg Duw ein Tad: bod rhywun yn gofalu am yr amddifad a’r gweddwon yn eu cyfyngder”** (1:27). Mae’n amlwg nad oedd gan y weddw run man i droi ond at y barnwr a oedd mewn modd i’w helpu.

Er ei wrthodiad cyntaf, mae’r weddw’n dyfalbarhau am gyfnod hir i geisio’i

help. Dydy hi ddim am dderbyn 'na' fel ateb. Mae'n amlwg ei bod yn esiampl i ni sut i ddal ati mewn gweddi.

Clywais hanes bachgen yn gofyn i'w dad am feic amser Nadolig. Esboniodd ei dad na fyddai'n werth cael beic am eu bod yn byw mewn tref brysur a'i bod yn beryglus heb helmed a phadiau amddiffyn. Weithiodd y dacteg ddim, serch hynny, a daeth y bachgen yn ôl bob dydd i ofyn am feic. Un diwrnod dywedodd ei dad wrtho y byddai'n ddrwg ar y bachgen petai'n dweud y gair 'beic' eto. Y bore nesa' dyma'r mab at ei dad a dweud: *'Dad, ti'n gwybod y peth nad ydwi fod i sôn amdano, oes posib i mi gael un amser Dolig?'* Y canlyniad oedd bod y mab wedi cael beic newydd, sgleiniog fore Nadolig.

Duw y Barnwr cyfiawn

Mae Iesu'n defnyddio'r gair 'etholedigion' ar gyfer credinwyr yn y darn yma. Mae hyn yn bwysig. Os yw Duw wedi dewis pobl i'w galw at Grist ers tragwyddoldeb, sut allem feddwl y byddai'n gwrthod gweithredu cyfiawnder yn eu hachos. Mae Iesu wedi dweud y bydd ef yn arddel gerbron y Tad y rhai sy'n ei arddel ef ar y ddaear (Math.10).

Mae Iago'n sôn am yr addewid o goron y bywyd i'r sawl sy'n sefyll yn gadarn yn wyneb temtasiwn. (Iago 1:12)

Mae'r apostol Paul yn dilyn camau iachawdwriaeth yn Rhuf. 8:30 sydd yn dilyn o ragordeinio i ogoneddu. Felly, mae'n amhosib meddwl y bydd Duw yn gwrthod gwarchod ac amddiffyn ei blant. Mae'n amhosib iddo'n galw ato, a thywallt ei gariad ynom, ac yna ein gadael ar y clwt, fel petai.

Mae Iesu Grist yn siŵr o ddychwelyd mewn gogoniant. Mae'n siŵr o gael ei weld a'i gydnabod yn Frenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi yn y diwedd. Yn y cyfamser, rhaid i ni weddïo'n daer ac ymddiried yn llwyr ynddo, fel y gwnaeth Iesu yn Gethsemane: **"fe offrymodd Iesu weddïau ac erfyniadau, gyda llef uchel a dagrau, i'r Un oedd yn abl i'w achub rhag marwolaeth, a chan gael gwrandawiad, fe'i rhyddhawyd o ofn"** (Heb. 5:7, troednodyn BCN).

"*Rho im ddyfal daerni'r Iesu,*
gofyn am a geisiai ef;
cael y ffydd nad yw yn methu
agor euraid byrth y nef." (R.S.Rogers)